# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 7

PWERAU GORFODI CYMWYSTERAU CYMRU

### 41 Adennill costau ar gyfer gosod sancsiynau

(1) Caiff Cymwysterau Cymru, drwy hysbysiad, ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu y gosodwyd sancsiwn arno dalu'r costau yr aeth Cymwysterau Cymru iddynt mewn cysylltiad â gosod y sancsiwn.

(2) Mae'r cyfeiriadau yn is-adran (1) at osod sancsiwn yn gyfeiriadau at—

(a) rhoi cyfarwyddyd o dan adran 37;

(b) gosod cosb ariannol o dan adran 38;

(c) tynnu cydnabyddiaeth yn ôl o dan baragraff 19 o Atodlen 3.

(3) Mae "costau" yn cynnwys, ymhlith pethau eraill—

(a) costau ymchwilio;

(b) costau gweinyddu;

(c) costau cael cyngor arbenigol (gan gynnwys cyngor cyfreithiol).

(4) Rhaid i hysbysiad a roddir i gorff dyfarnu o dan is-adran (1)—

(a) pennu'r swm y mae'n ofynnol ei dalu,

(b) pennu'r cyfnod y mae rhaid gwneud y taliad ynddo, ac

(c) cynnwys dadansoddiad manwl o'r swm a bennir.

(5) Rhaid i'r cyfnod a bennir o dan is-adran (4)(b) fod yn gyfnod o 28 o ddiwrnodau o leiaf sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonir yr hysbysiad.

(6) Rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys gwybodaeth o ran—

(a) sut y caniateir i daliad gael ei wneud,

(b) hawliau apelio o dan adran 42, ac

(c) canlyniadau peidio â thalu.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 41. (See end of Document for details)*

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 41 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 41 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 41.